

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)

Y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth: Taliadau Ymadael y Sector Cyhoeddus

1. Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn pennu bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os bydd un o Filiau Seneddol y Deyrnas Unedig yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â Chymru i ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy'n ei addasu.
2. Cyflwynwyd y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Mehefin 2014. Mae'r Bil i'w weld yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2014-15/smallbusinessenterpriseandemployment.html>

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (yr "Adran"). Prif amcan polisi'r Adran ar gyfer y Bil yw creu cyfleoedd newydd i fusnesau bach allu cystadlu, sicrhau cyllid i greu swyddi newydd, tyfu, arloesi ac allforio.
4. Mae'r Bil yn gwneud yn gwneud darpariaeth yn y meysydd canlynol:
 - gwell cyfle i fusnesau ac unigolion sicrhau cyllid;
 - darpariaethau rheoleiddiol yn ymwneud â busnes a rhai cyrff gwirfoddol a chymunedol;
 - y modd y mae rhai awdurdodau cyhoeddus yn arfer swyddogaethau caffael;
 - creu Cod a Dyfarnwr Tafarndai i reoleiddio'r trafodion rhwng busnesau sy'n berchen ar dafarndai a'r tafarndai sy'n denantiaid clwm iddynt;
 - rheoleiddio darpariaeth gofal plant a darpariaeth ynglŷn â gwybodaeth sy'n ymwneud â gwerthuso addysg;
 - rheoleiddio cwmnïau;
 - gofynion cwmnïau o ran ffeilio;
 - anghymhwyso o benodiadau'n ymwneud â chwmnïau; a darpariaeth ynghylch ansolfedd;
 - y gyfraith yn ymwneud â chyflogaeth; ac at ddibenion cysylltiedig.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

5. Gofynnir am gydsyniad ar gyfer cymalau 146-148 o'r Bil fel y'i diwygiwyd gan Bwyllgor y Bil yn y Tŷ cyntaf, sef Tŷ'r Cyffredin (cymalau 140 – 142 o'r Bill fel y'i gyflwynwyd).
6. Yn gryno, mae'r cymalau yma yn galluogi'r Trysorlys i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithwyr cyflogedig neu swydd-ddeiliaid yn y sector cyhoeddus ad-dalu "taliadau ymadael" a dderbynnir ganddynt wrth adael eu cyflogaeth os byddant yn dychwelyd i weithio yn yr un rhan o'r sector cyhoeddus yn ddiweddarach.
7. Mae'r mathau o daliadau ymadael y bydd modd eu hadfer o dan y mesur yn cynnwys iawndaliadau a wneir wrth derfynu cyflogaeth neu ddileu swydd, neu wrth golli cyflogaeth neu swydd heb i hynny fod wedi'i gynllunio.
8. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r darpariaethau:
 - a. yn rhoi pŵer i Drysorlys EM wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i dalu'r "taliad ymadael cymwys" i gyd, neu ran ohono, yn ôl mewn amgylchiadau penodedig;
 - b. yn darparu bod "taliad ymadael cymwys" yn golygu taliad o fath penodol a wneir i weithiwr neu swydd-ddeiliad awdurdod rhagnodedig yn y sector cyhoeddus pan fydd yn gadael y gyflogaeth neu'r swydd;
 - c. yn darparu bod y mathau o daliadau y ceir eu henwi fel taliadau ymadael cymwys yn cynnwys y canlynol:
 - i. taliadau dileu swydd (darllenir yn unol ag adran 139 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (sy'n nodi o dan ba amgylchiadau yr ystyrir bod gweithiwr yn cael ei ddiswyddo am i'r swydd gael ei dileu)),
 - ii. taliadau wrth adael yn wirfoddol,
 - iii. taliadau i leihau neu ddileu gostyngiad actiwaraidd i bensiwn wrth ymddeol yn gynnar,
 - iv. unrhyw daliad diswyddo neu daliad arall ex gratia,
 - v. unrhyw daliad cysylltiedig â hawl sy'n ddyledus (megis hawl i wyliau blynyddol neu lwfans),
 - vi. unrhyw iawndal o dan delerau contract,
 - vii. unrhyw daliad yn lle cyfnod rhybudd,
 - viii. unrhyw daliad ar ffurf cyfranddaliadau neu opsiynau cyfranddaliadau,
 - ch. yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ildio'r holl ad-daliad sy'n ofynnol yn rhinwedd y rheoliadau, neu ran ohono.
9. Caiff rheoliadau'r Trysorlys ddarparu ar gyfer ildio'r ad-daliad gyda chydsyniad y Trysorlys yn unig, neu ar ôl cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Trysorlys, ac maent yn darparu ynghylch cyhoeddi gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw ildiadau a roddir.
10. Caiff rheoliadau'r Trysorlys hefyd roi pŵer i Weinidogion Cymru yn hytrach nag i'r Ysgrifennydd Gwladol ildio'r gofyniad i ad-dalu, pan fo'r ad-daliad yn cael ei wneud

gan awdurdodau cyfrifol sy'n arfer swyddogaethau yn llwyr neu'n bennaf mewn cysylltiad â Chymru y gellid eu rhoi trwy ddarpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

11. Mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol mewn cysylltiad â Chymru.
12. Nid yw'r darpariaethau hyn yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru lunio is-ddeddfwriaeth.
13. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud ag Aelodau'r Cynulliad, y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru a benodwyd o dan adran 48, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion. O dan baragraff 13 o Atodlen 13, Deddf Llywodraeth Cymru (2006) mae gan Gynulliad Cymru gymhwysedd cysylltiedig â chyflogau, lwfansau, pensiynau ac arian rhodd i neu o ran Aelodau'r Cynulliad, y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru a benodwyd o dan adran 48, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion Cymru.
14. Mae Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn bod y darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn gysylltiedig ar hyn o bryd ag ystod o bynciau yn Atodlen 7, Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
15. Mae'r pynciau hyn yn cynnwys -
 - Pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion o dan baragraff 12
 - Gwasanaethau tân ac achub o dan baragraff 7
 - Cefn gwlad a manau agored o dan baragraff 6
 - Trefniadaeth a threfn ariannu gwasanaethau iechyd gwladol o dan baragraff 9
 - Archwilio, ymchwilio, rheoleiddio ac arolygu awdurdodau cyhoeddus archwiliadwy o dan baragraff 14.
16. Byddai'r darpariaethau felly yn berthnasol i sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n ymwneud â'r pynciau hyn gan gynnwys: Awdurdodau Lleol, Gwasanaethau Tân ac Achub, Awdurdodau Parc Cenedlaethol, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig, sefydliadau sy'n ymwneud â gweinyddiaeth gyhoeddus megis Swyddfa Archwilio Cymru, a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn.

Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad

17. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil y DU gan mai dyma'r dull deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn berthnasol i Gymru. Yn ogystal, mae natur ryng-gysylltiedig y systemau gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr yn golygu mai'r

cam mwyaf effeithiol a phriodol yw bwrw ymlaen â darpariaethau'r Bil ar gyfer y ddwy wlad ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol.

Goblygiadau ariannol

18. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

Jane Hutt, AC
Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Tachwedd 2014